| Cyfenw Atebion | Rhif y ganolfan | Rhif yr ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 0 |

# TGAU

## 3320NC0-1

## Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)
## Uned 3: Caniateir cyfrifiannell
## Haen Sylfaenol

1 awr 45 munud

## DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

**Deunyddiau ychwanegol**

Bydd angen defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Cewch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen/tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

Cymerwch π fel 3·14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn 2(a), bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb mathemategol yn ysgrifennu.


| At ddefnydd yr arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc uchaf** | **Marc a roddwyd** |
| **1.** | 2 | |
| **2.** | 8 | |
| **3.** | 2 | |
| **4.** | 3 | |
| **5.** | 9 | |
| **6.** | 3 | |
| **7.** | 2 | |
| **8.** | 4 | |
| **9.** | 6 | |
| **10.** | 2 | |
| **11.** | 4 | |
| **12.** | 5 | |
| **13.** | 3 | |
| **14.** | 4 | |
| **15.** | 6 | |
| **16.** | 5 | |
| **17.** | 3 | |
| **18.** | 4 | |
| **Cyfanswm** | **75** | |



© WJEC CBAC Ltd 2024


## Rhestr Fformiwlâu – Uned 3 Haen Sylfaenol

**Arwynebedd trapesiwm =** $\frac{1}{2}(a+b)h$




**Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf**
**(e.e. Prism, Silindr)**

Cyfaint = arwynebedd y trawstoriad × hyd






© WJEC CBAC Ltd 2024

Atebwch **bob** cwestiwn.

**1.** (a) Cafodd geiriau anthem genedlaethol Cymru, Hen Wlad fy Nhadau, eu hysgrifennu gan Evan James ym mis Ionawr 1856. [1] Arholwr yn unig

Ym mis Ionawr 2024, mae Mathew yn canu'r anthem mewn cystadleuaeth yn yr ysgol.

Sawl blwyddyn ar ôl i Evan James ysgrifennu'r geiriau roedd Mathew yn canu yn y gystadleuaeth?

$2024 - 1856 = 168$

(b) Mae Kris wedi rhoi'r ateb cywir i bedwar o'r pum cyfrifiad isod. [1]

Rhowch gylch o amgylch y cyfrifiad **anghywir**.

54 + 9876 = 9930     123 × 87 = 10701     1225 ÷ 35 = 35

(246 × 35 = 8650)     12345 – 6789 = 5556


$246 \times 35 = 8610$



© WJEC CBAC Ltd 2024

**2.** Mae'r siâp isod, sydd wedi'i luniadu ar grid sgwâr, yn cynrychioli'r lawnt yng ngardd Amy. [3 + 2 TCY]

Arholwr yn unig




SWM, EGLURHAD

(a) *Yn y rhan hon o'r cwestiwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae pob sgwâr ar y grid yn cynrychioli arwynebedd o 2.25 m$^2$.
Amcangyfrifwch arwynebedd lawnt Amy.

| SWM | EGLURHAD |
|---|---|
| 28 | Nifer o sgwariau llawn |
| $1+1+\frac{1}{2}+2=4\frac{1}{2}$ | Amcangyfrif arwynebedd y darnau tu allan |
| $28+4\frac{1}{2}=32\frac{1}{2}$ | Cyfansum yr arwynebedd |
| $32.5 \times 2.25$ | Casgliad: Amcangyfrif o |
| $= 73.125\text{m}^2$ | arwynebedd lawnt Amy |
| | yw $73.125\text{m}^2$ |



© WJEC CBAC Ltd 2024

(b) Mae Amy eisiau gwella ei lawnt drwy hau hadau gwair newydd. Mae hadau gwair i orchuddio (*cover*) 1 $m^2$ yn costio 94c. [3]

Arholwr yn unig

Cyfrifwch gyfanswm cost yr hadau sydd eu hangen ar Amy.
Rhowch eich ateb mewn **punnoedd** (£), yn gywir i'r geiniog agosaf.

73.125 × 94c = 6873.75c
↓ ÷100
£68.7375
= £68.74 i'r geiniog agosaf


Cyfanswm cost yr hadau gwair = £ 68.74



© WJEC CBAC Ltd 2024


**3.** [2]

Arholwr yn unig




Pa **ddau** o'r siapiau canlynol sy'n gyfath â siâp A?

↳ Yr un siâp, yr un maint




Y siapiau sy'n gyfath â siâp A yw:

.........C......... a .........G.........




© WJEC CBAC Ltd 2024

**4.** Mae Clara yn gwneud brechdanau caws, brechdanau ham a brechdanau tiwna i'w gwerthu yn ei siop. [3]

Arholwr yn unig

Mae hi'n gwneud cyfanswm o 180 o frechdanau.

Defnyddiwch y wybodaeth ganlynol i gwblhau'r tabl isod.

- mae hi'n gwneud 124 o frechdanau gan ddefnyddio bara brown
- mae 85 brechdan yn cynnwys caws
- mae hi'n gwneud 18 o frechdanau tiwna gan ddefnyddio bara gwyn
- mae hi'n gwneud 28 o'r 40 brechdan ham gan ddefnyddio bara brown.

| | Caws | Ham | Tiwna | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Bara gwyn** | 26 | 12 | 18 | 56 |
| **Bara brown** | 59 | 28 | 37 | 124 |
| **Cyfanswm** | 85 | 40 | 55 | **180** |

Cyfanswm bara gwyn: 180 − 124 = 56
Ham bara gwyn: 40 − 28 = 12
Tiwna: 180 − 85 − 40 = 55
Tiwna bara brown: 55 − 18 = 37
Caws bara brown: 124 − 28 − 37 = 59
Caws bara gwyn: 56 − 18 − 12 = 26
(neu 85 − 59 = 26)



© WJEC CBAC Ltd 2024

**5.** Mae'r 32 disgybl mewn dosbarth Blwyddyn 11 yn cofnodi eu prif ddull o deithio i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw. | Arholwr yn unig


Yr opsiynau maen nhw'n eu cofnodi yw Cerdded, Beicio, Bws, Trên, Car, Arall.

(a) Mae rhai o'r canlyniadau i'w gweld yn y siart bar isod. [2]

O'r 32 disgybl yn y dosbarth:

- mae 12 disgybl yn cofnodi naill ai Bws neu Trên
- yr opsiwn **moddol** yw Bws. → Mwyaf poblogaidd

Cwblhewch y siart bar drwy luniadu'r ddau far coll.




Os yw'r modd yn 'Bws', yna rhaid bod yn fwy na 10 ('Cerdded')
Mae rhywun wedi dweud 'Trên' felly rhaid bod Bws = 11 a Trên = 1



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(b) Mae saith o'r disgyblion oedd wedi cerdded yn cofnodi eu pellterau o'r cartref i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r pellterau, wedi'u mesur mewn km, i'w gweld isod.

2.1 1.7 0.9 1.4 2.1 2.8 0.2

→ Rhif(au) yn y canol ar ôl trefnu

(i) Darganfyddwch ganolrif y pellterau hyn. [2]

Mewn trefn:

0.2, 0.9, 1.4, 1.7, 2.1, 2.1, 2.8

↑

Canolrif = 1.7 km

↙ Mwyaf tynnu lleiaf

(ii) Darganfyddwch amrediad y pellterau hyn. [1]

2.8 − 0.2 = 2.6

Amrediad = 2.6 km

↙ Cyfanswm y rhifau rhannu efo'r nifer o eitemau data

(iii) Darganfyddwch gymedr y pellterau hyn. [3]

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

0.2 + 0.9 + 1.4 + 1.7 + 2.1 + 2.1 + 2.8

= 11.2

11.2 ÷ 7 = 1.6

Cymedr = 1.6 km



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(iv) Mae wythfed disgybl sy'n cerdded yn dweud ei bod hi'n cerdded 0.4 km i'r ysgol bob dydd. [1]

Beth fydd yn digwydd i'r pellter cymedrig rydych chi wedi'i gyfrifo yn rhan (iii) yw'n cynnwys pob un o'r wyth disgybl?

Ticiwch y blwch cywir.

| | |
|---|---|
| Bydd y cymedr yn cynyddu | |
| Bydd y cymedr yn aros yr un fath | |
| Bydd y cymedr yn lleihau | ✓ |


Rhaid i chi esbonio eich dewis.

Mae 0·4 yn llai nâr cymedr 1·6

**6.** Gan ddefnyddio pren mesur ac onglydd, cwblhewch luniad manwl gywir o'r triongl *FGH*, lle: [3]

- $GH = 8\,\text{cm}$
- $F\hat{G}H = 60°$
- $F\hat{H}G = 36°$

Mae'r ochr *GH* wedi cael ei luniadu i chi.






© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**7.** Mae Sam yn meddwl am rif. [2]

$\frac{1}{3}$ o'i rif yw 477.

Beth yw rhif Sam?

$477 \times 3 = 1431$

Gwirio : $1431 \times \frac{1}{3} = 477$ ✓

**8.** (a) (i) Mae blwch yn cynnwys $a$ afal.
Ysgrifennwch, yn nhermau $a$, nifer yr afalau mewn 8 blwch. [1]

$8a$

(ii) Mae Yang yn $b$ oed. Mae Catrin 7 mlynedd yn iau na Yang.
Ysgrifennwch oed Catrin, yn nhermau $b$. [1]

$b - 7$

(b) (i) Datryswch $x - 7 = 38$ [1]

$x = 38 + 7$

$x = 45$

(ii) Datryswch $\frac{y}{4} = -17$ [1]

$y = -17 \times 4$

$y = -68$




© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**9.** Cwmni sy'n cyflenwi trydan yw Gwalia Electric.

(a) Y llynedd, dangosodd Gwalia Electric y wybodaeth ganlynol mewn siart cylch. [3]




| Mae'r siart cylch yn cynrychioli cyfanswm o £2340 miliwn. |
|---|

Faint o arian wnaeth Gwalia Electric ei wario ar fentrau gwyrdd y llynedd?
Rhowch eich ateb mewn miliynau o bunnoedd.

$2340 \times \frac{40}{360} = 260$

Troad cyfan = 360°

Arian gafodd ei wario ar fentrau gwyrdd = £ 260 miliwn



© WJEC CBAC Ltd 2024

(b) Y llynedd, roedd gan Gwalia Electric 1.08 miliwn o gwsmeriaid. [1]
Y flwyddyn cyn hynny, roedd gan Gwalia Electric 800 000 o gwsmeriaid.

Arholwr yn unig


Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y niferoedd hyn o gwsmeriaid?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

1 880 000    (280 000)    692 000    2 800 000    728 920

1.08 miliwn = 1,080,000    1 miliwn = 1,000,000

1 080 000 − 800000 = 280 000

(c) Mewn hysbyseb, mae Gwalia Electric yn honni bod bil blynyddol cyfartalog cartrefi wedi gostwng 9% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. [2]
Mae'r hysbyseb yn dangos y canlynol.




Ydy'r gostyngiad 9% yn gywir ar gyfer y rhifau sydd i'w gweld?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo i ategu eich ateb.

2400 × 9% = 216

2400 − 216 = 2184

Mae'r gostyngiad 9% yn gywir.



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig


**10.** Cyfrifwch y canlynol, gan roi eich ateb yn gywir i 2 le degol. [2]

$$\frac{25 - 3.7^2}{\sqrt{21}}$$

= 2.468044339

= 2.47 i 2 le degol

**11.** Mae diod lemon yn cael ei gwneud drwy ychwanegu dŵr at gordial lemon.



(a) Mae jwg mesur yn cynnwys 170 ml o gordial lemon. [2]
Mae 1.36 litr o ddŵr yn cael ei ychwanegu i wneud y ddiod lemon.

Beth yw cyfaint y ddiod lemon yn y jwg?
Rhowch eich ateb mewn mililitrau.

1.36 litr = 1360ml (1 litr = 1000 ml)

1360 + 170 = 1530 ml

Cyfaint y ddiod lemon yn y jwg yw 1530 ml



© WJEC CBAC Ltd 2024

(b) Mae cwpan yn dal 175 ml o ddiod lemon pan mae'n llawn. [2]

Arholwr yn unig

Faint o gwpanau sy'n gallu cael eu llenwi'n llawn gan ddefnyddio'r ddiod lemon o'r jwg?

1530 ÷ 175 = 8.742857143

Felly 8 cupan llawn



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**12.** Mewn cwis, mae 60 o gwestiynau.
Mae cystadleuydd yn sgorio

+ 6 phwynt am bob ateb cywir,
– 3 phwynt am bob ateb anghywir,
– 2 bwynt am bob cwestiwn heb ei ateb.

Mae Elena a Faizal yn ddau gystadleuydd yn y cwis.

(a) Mae Elena yn ateb 32 cwestiwn yn gywir, yn ateb 16 cwestiwn yn anghywir ac nid yw'n ateb 12 cwestiwn. [2]

Beth yw ei sgôr derfynol?

$32 \times 6 = 192$

$16 \times -3 = -48$

$12 \times -2 = -24$

$192 - 48 - 24 = 120$

(b) Ar ôl 59 cwestiwn, sgôr Faizal oedd 345 pwynt. [3]
Ar ôl 60 cwestiwn, sgôr Faizal oedd 343 pwynt.

Esboniwch, gan ddangos eich cyfrifiadau, sut gallai Faizal fod wedi ateb y 60 cwestiwn.

Sgôr uchaf posib: $60 \times 6 = 360$

59 cwestiwn cywir: $59 \times 6 = 354$

58 cwestiwn cywir: $58 \times 6 = 348$


Gall Faizal fod wedi ateb y 58 cwestiwn cyntaf yn gywir (348 pwynt), cael ateb cwestiwn 59 yn anghywir (345 pwynt), a pheidio ateb cwestiwn 60 (343 pwynt).



© WJEC CBAC Ltd 2024

**13.** Mae map o Gymru a rhan o Weriniaeth Iwerddon i'w weld isod. [3]

Arholwr yn unig




Mae pentref Courtown yng Ngweriniaeth Iwerddon ar gyfeiriant:

- 260° o Bwllheli a
- 310° o Abergwaun.

Marciwch leoliad Courtown ar y map â chroes, X.

Mae cyfeiriannau'n cael eu mesur yn glocwedd o'r Gogledd mewn graddau





© WJEC CBAC Ltd 2024

**14.** Mae Mali yn gweithio mewn canolfan alwadau.

Arholwr yn unig

Mae'r diagram amlder isod yn dangos yr amser mae'n ei gymryd i Mali ateb pob galwad gafodd hi ddydd Mawrth.

Ddydd Mawrth, atebodd hi'r holl alwadau o fewn 60 eiliad.




Meddai Mali,
'Fe wnes i ateb 80% o'r galwadau ges i ddydd Mawrth o fewn 30 eiliad neu lai.'

Ydy Mali'n gywir?

Ydy ☐ Nac ydy ☑

Rhaid i chi ddangos gwaith cyfrifo i ategu eich ateb. [4]

Cyfansum galwadau:
22 + 48 + 62 + 34 + 14 + 10 = 190

Cyfansum galwadau 30 eiliad neu lai:
22 + 48 + 62 = 132

Canran o alwadau wedi'u hateb o fewn 30 eiliad:
(132 ÷ 190) × 100% = 69.47… %

Mae hyn yn llai na 80% felly nid yw Mali'n gywir.

NEU: Cymharu 132 efo 80% o 190, sef 152




© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**15.** Mae 15 chwaraewr mewn tîm rygbi.
Fe wnaeth tîm rygbi Cymru chwarae yn erbyn tîm rygbi Iwerddon ym mis Chwefror 2024.

Mae'r diagram gwasgariad isod yn dangos taldra a màs pob un o'r 15 chwaraewr o Gymru ddechreuodd y gêm yn erbyn Iwerddon.




(a) Mae gan ddau o'r chwaraewyr, sydd â màs sy'n fwy na 90 kg, yr un màs. [2]

Darganfyddwch y gwahaniaeth rhwng taldra'r ddau chwaraewr hyn.
Rhowch eich ateb mewn centimetrau.

2.01m − 1.88m = 0.13m

↓ × 100

13 cm

(b) Mae Siôn yn credu bod y diagram gwasgariad yn dangos bod cydberthyniad positif rhwng taldra a màs yr 15 chwaraewr o Gymru.

(i) Esboniwch beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun y diagram gwasgariad. [1]

Mae patrwm i'w weld yn y pwyntiau data yn mynd o waelod ar y chwith i'r top dde, fel bod chwaraewyr sy'n fwy trwm hefyd yn fwy tal.



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(ii) Mae ffrind Siôn, Harri, yn edrych ar y diagram gwasgariad ac yn dweud;

'Dydy taldra a màs un chwaraewr ddim yn dilyn yr un patrwm â gweddill y chwaraewyr'.

Ysgrifennwch daldra a màs y chwaraewr hwn. [1]

Taldra = 1.78 m    Màs = 119 kg

(c) Tynnwch linell ffit orau ar y diagram gwasgariad. [1]

(ch) Esboniwch pam gallai hi fod yn amhriodol defnyddio eich llinell ffit orau i amcangyfrif taldra chwaraewr rygbi â màs 125 kg. [1]


Does neb yn y data efo màs mwy na 122Kg, felly byddai 125Kg tu allan i amrediad y data gwreiddiol.



© WJEC CBAC Ltd 2024

**16.** Arwynebedd y triongl *PQR*, sydd i'w weld yn y diagram isod, yw 36 cm². [5]

Arholwr yn unig




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Cyfrifwch hyd *PR*.

Arwynebedd triongl = $\frac{\text{Sail} \times \text{uchder}}{2}$ Gweithio'n ôl i ffeindio'r sail

$36 = \frac{? \times 8}{2}$

$36 \times 2 = ? \times 8$

$72 = ? \times 8$

$72 \div 8 = ?$

$9 = ?$ Hyd QR = 9cm

Theorem Pythagoras i ffeindio hyd PR:

$8^2 = 64$

$9^2 = 81$

$145$ Adio gan ein bod eisiau ffeindio'r hypotenws

$\sqrt{145} = 12.04159458$

$= 12.04 \text{ cm}$



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**17.** Mae'r diagram wrth raddfa isod yn dangos uwcholwg ar ardd Gruff. [3]
Mae'n defnyddio'r raddfa **1 cm yn cynrychioli 1 metr.**

Mae tŷ Gruff ar hyd yr ochr BC.
Mae perth (*hedge*) ar hyd AB.
Mae ffens ar hyd CD.


Mae Gruff eisiau plannu coeden yn yr ardd.

Rhaid i'r goeden fod

- yn agosach at y ffens na'r tŷ
- llai na 7 metr o'r gornel *A*.

Haneru'r ongl BĈD efo cwmpas NEU onglydd
Cylch radiws 7cm o amgylch A

Tynnwch linellau addas ar y diagram a thywyllwch y rhanbarth lle byddai'n bosibl plannu'r goeden.







© WJEC CBAC Ltd 2024

**18.** Mae gan silindr metel solet radiws 2.3 cm ac uchder 5 cm. [4]

Arholwr yn unig





*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Màs y silindr yw 423.1 g.
Darganfyddwch ddwysedd y metel.
Rhowch eich ateb mewn g/cm³.

Tudalen 2

Cyfaint y silindr = Arwynebedd y trawstoriad × uchder
= Arwynebedd y cylch × uchder
= (π × radiws²) × uchder
= $\pi \times 2.3^2 \times 5$
= 83.09512569 cm³




Dwysedd = Màs ÷ Cyfaint
= 423.1 ÷ 83.09512569
= 5.091754739
= 5.09 g/cm³ i 2 lle degol

**DIWEDD Y CWESTIYNAU**




© WJEC CBAC Ltd 2024

| Rhif y cwestiwn | **Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.**<br>**Ysgrifennwch rifau'r cwestiwn/cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.** |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Ltd 2024